**COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANDYFAELOG**
**GYNHALIWYD YN Y NEUADD 3 MEDI 2026 AM 7.30YH**

**1. Yn bresennol:** Y Cyng Jenny Jones (Cadeirydd), Philip Davies, Janet Knott, Meinir James, Elfyn Williams, Viv Davies, Eifion Jones, Shan Rees, Nicola Jones, Cynghorydd Sir Tyssul Evans ac Arfon Davies (Clerc).

**Ymddiheuriadau**: Cyng Rheinallt Jones.

**2. Datganiadau Diddordeb**

Dim datganiadau.

**3. Cyfranogiad gan y Cyhoedd**

Nodwyd nad oedd unrhyw aelod o'r cyhoedd yn bresennol ar yr achlysur hyn.

**4. Cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion Cyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd ar y $2^{il}$ a $13^{fed}$ Gorffennaf 2026.**

**5. Materion yn Codi**

1. **Green Gen** – Derbyniwyd cadarnhad byddai rownd bellach o ymgynghori yn cael ei chynnal yn yr wythnosau nesaf gyda dyddiadau'n cael eu disgwyl. Nodwyd.
2. **Cais cynllunio, PL/02147 mewn eiddo yn ardal coetir - Idole i Pentrepoeth –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
3. **Materion diogelwch ffyrdd ym Mancycapel –** Derbyniodd y Cyngor gadarnhad bod y gorchymyn traffig yn gwahardd goddiweddyd wedi'i gyhoeddi ar $15^{fed}$ Gorffennaf 2026. Roedd disgwyl rhagor o wybodaeth ynghylch y gwaith gweithredu. Nodwyd hyn.
4. **Pont Rhydyronnen –** Derbyniodd y Cyngor gadarnhad bod arwyddion newydd wedi'u gosod. Nodwyd.
5. **PL/09369** - **1-3 Gelligaeros Trading Estate, Cwmffrwd, Caerfyrddin, SA32 8DJ** – Derbyniwyd cadarnhad bod yr Ymholiad Apêl, a oedd wedi'i drefnu i'w gynnal ar $2^{il}$ Medi 2026, wedi'i ohirio. Nodwyd hyn.
6. **Maesglasnant, Cwmffrwd –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
7. **Diogelwch Ffyrdd yng Nghyffordd Llandyfaelog –** Derbyniodd y Cyngor gadarnhad bod arwyddion rhybudd ychwanegol wedi'u gosod. Nodwyd.
8. **Materion Gorfodi Cynllunio mewn caeau yn Idole –** Derbyniwyd cadarnhad fod y carafan wedi'u symud i ffwrdd. Nodwyd.
9. **Materion Gorfodi Cynllunio sy'n ymwneud â Chanolfan Adar Ysglyfaethus ym Mhantgwyn -** Cadarnhawyd nad oedd gan Adran Gorfodi Cynllunio Cyngor y Sir unrhyw bryderon ynghylch y safle, a bod yr holl ddatblygiadau a gwblhawyd yn unol â'r Caniatâd Cynllunio a gafwyd. Nodwyd hyn.

10. **PL/10552 - Caniatâd cynllunio llawn ar gyfer codi is-orsaf AIS 400kV (gan gynnwys platfform, ffordd fynediad a seilwaith cysylltiedig) - Tir yn Llandyfaelog, Caerfyrddin -** Roedd manylion pellach wedi dod i law'r Awdurdod Cynllunio a oedd yn golygu bod y cyfnod ymgynghori wedi'i ailagor. Nodwyd.
11. **Prosiect Is-orsaf NGED –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
12. **Gwynt Glas –** Roedd y Cyngor yn aros am ddiweddariadau pellach ar y mater. Nodwyd.
13. **Rhodd i Gymdeithas Pensiynwyr Llandyfaelog a'r Cylch –** Nododd y Clerc bod y taliad rhodd o £100 wedi'i wneud. Nodwyd.
14. **Ciosg Ffon BT– Croesyceiliog -** Derbyniwyd cadarnhad bod yr atgyweiriadau wedi'u cymeradwyo a bod y gwaith bellach yn cael ei ddisgwyl.

**6. Gohebiaeth**

1. **Un Llais Cymru –** Cofnodion cyfarfod Pwyllgor Ardal Caerfyrddin a gynhaliwyd ar 14$^{fed}$ Gorffennaf 2026. Nodwyd.
2. **Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru –** Cylchlythyr. Nodwyd.
3. **Un Llais Cymru –** Gwybodaeth am y Gynhadledd Arferion Arloesol i'w chynnal ar 30$^{ain}$ Medi 2026. Nodwyd.
4. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Ymgynghoriad ar fwriad y Cyngor Sir i gyflwyno gwaharddiad ar oddiweddyd ar ran o ffordd y B4309 yn Bancycapel. Nodwyd.
5. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Hysbysiad o gau ffordd dros dro ar y U2207, Idole, ar 27/07/2026 rhwng 08:00 ac 17:00. Nodwyd.
6. **Un Llais Cymru –** E-bwletin. Nodwyd.
7. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Asesiad y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus o Les Lleol. Nodwyd.
8. **Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru –** Cylchgrawn Calon Tân. Nodwyd.
9. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Gwybodaeth am Ddiwrnod Gwirfoddolwyr Argyfyngau Sifil ar 22$^{ain}$ Hydref 2026. Nodwyd.
10. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Diweddariad Cynghorau Tref a Chymuned. Nodwyd.
11. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Gwybodaeth o sesiwn hyfforddiant ar y Cod Ymddygiad a gynhaliwyd ar 29$^{ain}$ Gorffennaf 2026. Nodwyd.
12. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Hysbysiad o gau Ffordd Cwmbyri (C2057) dros dro ar y 18$^{fed}$ Awst am gyfnod o 2 diwrnod. Nodwyd.
13. **Un Llais Cymru –** Dyddiadau hyfforddiant Awst – Rhagfyr. Nodwyd.
14. **Cyngor Sir Caerfyrddin –** Cadarnhad o daliad o 1/3$^{ydd}$ o bresept 2026-27, sef £11,333.33. Nodwyd
15. **Banc Barclays –** Datganiadau. Nodwyd.
16. **Un Llais Cymru –** Cais i ystyried cynigion ar gyfer y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol. Bydd hyn yn cael ei ystyried yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.
17. **Un Llais Cymru –** Cylchgrawn Y Llais. Nodwyd.

**7. Cyfethol Aelod i'r Cyngor Cymuned**

Ystyriodd aelodau cyfethol aelod i'r Cyngor Cymuned. Ystyriwyd yr enwebiadau a bydd y Clerc yn cysylltu i drafod y mater.

**8. Cae Idole ac Amwynderau'r Cyngor**

Nodwyd bod y fainc ar Fflatiau Pibwrlwyd yn rhydd yn y ddaear. Bydd y Clerc yn gofyn i Atygeiriwr y Cyngor ei harchwilio a'i thrwsio.

**9. Atgyweiriwr Cymunedol**

Cadarnhaodd y Clerc 28 awr wedi eu gweithio ym mis Gorffennaf ac Awst gyda chyfanswm cost o £672.00 y mis yn cael ei gytuno. Cytunwyd hefyd dorri gwair ar gyfer Gorffennaf ac Awst gyda chost o £336.00 y mis.

**10. Digwyddiadau Gymunedol 2026**

1. **Cystadleuaeth Gardd -** Nododd y Cadeirydd lwyddiant y gystadleuaeth a'r noson wobrwyo a gynhaliwyd ar y 24ain o Awst. Mynegwyd diolch i Farnwr y gystadleuaeth ac i'r ffotograffydd. Nodwyd y costau fel a ganlyn:

    - Tlysau £66.95
    - Gwobrau £150.00
    - Bwffe £183.37

2. **Cystadleuaeth Ymdrech Gymunedol –** Nodwyd y trefniadau ar gyfer y gystadleuaeth a gynhelir yn Sioe Llandyfaelog ar y 12fed Fedi.

3. **Sul y Cofio -** Roedd y Clerc yn gwneud ymholiadau ynghylch trefniadau ar gyfer Sul y Cofio. Nodwyd.

**11. Cynllunio**

1. **PL/10552** - **Caniatâd cynllunio llawn ar gyfer codi is-orsaf AIS 400kV (gan gynnwys platfform, ffordd fynediad a seilwaith cysylltiedig) - Tir yn Llandyfaelog, Caerfyrddin -** Bydd y Cynghorydd Nicola Jones a'r Clerc yn drafftio sylwadau ychwanegol i'r Cyngor eu cynnwys yn y gwrthwynebiad a gyflwynwyd yn flaenorol, a bydd y rhain yn cael eu dosbarthu i'w hystyried gan aelodau yn barod ar gyfer y dyddiad cau ar gyfer yr ail-ymgynghori.

**12. Deddf Rhyddid Gwybodaeth – Cynllun Cyhoeddi**

Cyflwynodd y Clerc y Cynllun Cyhoeddi drafft wedi'i ddiweddaru. Cytunwyd y dogfen fel polisi'r Cyngor.

**13. Ceisiadau am Gymorth Ariannol**

1. **Cerebral Palsy Cymru –** Cytunwyd rhodd o £25.00

**14. Cyfrifon**
**Cymeradwywyd y Taliadau canlynol:**

| | | |
|---|---|---|
| **1. Rooks Trophies** | **£60.00** | Tlysau Cystadleuaeth Gardd (gweler eitem 10.1) |
| **2. Rooks Trophies** | **£6.95** | Tlysau Cystadleuaeth Gardd (gweler eitem 10.1) |
| **3. Arfon Davies** | **£150.00** | Gwobrau Cystadleuaeth Gardd (gweler eitem 10.1) |
| **4. Arfon Davies** | **£183.37** | Bwffe Cystadleuaeth Gardd (gweler eitem 10.1) |

| 5. | Disgrifiad | Cyflog | Costau | Cyfanswm Gros | Treth wedi tynnu ffwrdd | YG wedi tynnu ffwrdd | Cyflog Net |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Arfon Davies | Cyflog Gorffennaf | £775.54<br>£26.00 | £13.75<br>£45.18 | £860.47 | £310.40 | £53.78 | £550.07 |
| Arfon Davies | Cyflog Awst ac ad-daliad | £801.13<br>£102.38<br>£26.00 | £24.80<br>£40.42 | £994.73 | £361.20 | £72.98 | £633.53 |

| | | |
|---|---|---|
| **6. Michael Leefe** | **£672.00** | Torri Gwair Gorffennaf ac Awst (gweler eitem 9) |
| **7. Michael Leefe** | **£1,344.00** | Taliad Gorffennaf ac Awst (gweler eitem 9) |
| **8. Vision ICT** | **£436.04** | Cynnal a chadw gwefan 2026-27 £363.37 ynghyd â £72.67 TAW |
| **9. Cerebral Palsy** | **£25.00** | Rhodd (gweler eitem 13.1) |

**15. Nododd y Cynghorydd Philip Davies ei diddordeb yn y mater hwn a gadawodd y cyfarfod ar gyfer ystyriaeth y mater**

**Adolygiad o Ddisgrifiad Swydd a Chontract Clerc y Cyngor**

Ystyriwyd adolygiad o raddfa gyflog y Clerc, a oedd yn awgrymu symud y rôl i'r meini prawf meincnod sylweddol ar gyfer LC2 (Pwyntiau 24-28) o'r raddfa bresennol sy'n is na'r lefel sylweddol ar gyfer LC2 (Pwyntiau 18-23). Cymeradwywyd hyn, gyda'r Clerc i'w osod ar y raddfa honno yn effeithiol o 1af Ebrill 2026.

Roedd Un Llais Cymru wedi darparu Contract Enghreifftiol wedi'i ddiweddaru; ystyriwyd hwn hefyd a chytunwyd arno.

Derbyniwyd y Dyfarniad Cyflog ar gyfer 2026-27 gyda ad-daliad am y flwyddyn o’r 1af Ebrill yn cael ei gytuno i’w dalu.

16. **Nododd y Cynghorydd Philip Davies a'r Clerc eu diddordeb yn y mater hwn a gadawsant y cyfarfod ar gyfer ystyriaeth y mater. Cais Cynllunio CAS-03952-H9R8G4 - Parc Solar Heolddu, Maesmawr a Fferm Treforris Fawr, Glanyfferi, Sir Gaerfyrddin, SA17 5YD.** Derbyniwyd gwybodaeth ynghylch y broses archwilio a'r posibilrwydd y byddai'r Cyngor Cymuned yn cymryd rhan yn y gwrandawiadau i ystyried y pynciau a nodwyd.

Cytunwyd i ddanfon datganiad gwrandawiad cysylltiedig drafft (dim mwy na 3,000 o eiriau fel a nodir gan PEDW) at gynghorwyr i'w gytuno cyn cael ei gyflwyno i PEDW erbyn dyddiad sydd I'w gadarnhau.

Cytunwyd bod Cadeirydd y Cyngor Cymuned ag aelod arall o'r Cyngor Cymuned (i'w gadarnhau pan gyhoeddir dyddiad y gwrandawiadau) yn mynychu'r gwrandawiadau gofynnol ar ran y Cyngor Cymuned.

**Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor ddydd Iau 1af Hydref 2026.**